

Medi 2013

Annwyl riant/warcheidwad

Newyddlen Medi 2013

Pleser o'r mwyaf oedd croesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ddechrau mis Medi, gan obeithio iddynt gael gwyliau haf braf a dedwydd. Pleser yw cael ysgrifennu newyddlen gyntaf y flwyddyn ysgol newydd. Ynndi, cewch lawer o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r hyn y mae'ch plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol ynghyd â nifer o bethau pwysig i'w cofio am y tymor i ddod. Edrychaf ymlaen at gyfarfod pawb eleni, yn enwedig ein rhieni/gwarcheidwaid newydd!

Rhai manylion am y dosbarthiadau

	Dosbarth Meithrin	Dosbarth Derbyn	Blwyddyn 1 a 2	Blwyddyn 3 a 4	Blwyddyn 5 a 6
Athro(awes) / Cymhorthydd	<i>Ms Evelyn Parry / Miss Sophie Underwood</i>	<i>Mrs Delyth Roberts / Mrs Heulwen Hughes</i>	<i>Miss Sara Jones / Mrs Bet Richards / Mrs Wendy Jones</i>	<i>Mrs Einir Humphreys (Dirprwy Bennaeth) / Miss Julie Roberts</i>	<i>Mr Gethin Thomas (Prifathro) / Miss Julie Roberts</i>
	<i>Mrs Manon Griffiths – Cyfnod Sylfaen – Dydd Iau</i>			<i>Miss Fflur Williams – Bl 5/6 Dydd Llun & Dydd Iau Bl3/4 Dydd Mercher</i>	
Gwaith cartref				Gosod ar ddydd Llun ; yn ôl ar ddydd Gwener . Geiriau sillafu wythnosol	
Llyfrau darllen	<i>Adref ar ddydd Gwener; yn ôl ar ddydd Llun.</i>			<i>Adref ar ddydd Gwener; yn ôl ar ddydd Gwener.</i>	<i>Llyfrau darllen i'r ysgol yn ddyddiol.</i>
Addysg gorfforol	<i>Gwisg nofio a dillad addysg gorfforol ar ddydd Mawrth (cychwyn 10/09/13) (Dim i'r Meithrin)</i>				

Gofalwch fod enw eich plentyn/plant ar bob darn o ddilledyn!

Nofio

Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £2 tuag at gostau teithio.
Bydd cyfle i chwi dalu yn dymhorol (£28) neu'n wythnosol (£2).

Arian cinio

£10.00 yr wythnos
(i'w dalu ar ddydd Llun)

Arian llefrith

50c yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun) Bydd Cyfle i dalu'n dymhorol (£7.40)

Bl 3,4,5 a 6 yn unig.

Gwisg ysgol / Hwdis

i'w harchebu drwy'r ysgol. Ffoniwch Mrs Sioned Roberts-Williams am fanylion.

Gofalwch fod enw eich plentyn/plant ar bob darn o ddilledyn!

Prësennoldeb a phrydlondeb

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn gstyried prësennoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'eh plentyn/plant fantaisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rhwolaidd erbyn 8.55 er mwyn egehwn ar ddiwrnod egffrous arall yn brydlon am 9.00!

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, **a fuasch eystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae'ch plentyn/plant yn dgehwelgd.**

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50yb YMLAEN



Adran ddiogel Gwefan Ysgol www.ysgolpentreuchaf.org

Er mwyn gweld llythyrau, lluniau a'r wal fideo, mae'n rhaid rieni ddefnyddio cyfrinair arbennig er mwyn cael mynediad:-

PWYSIG - Negeseuon Testun

Yn ein hymdrech i arbed arian (a choed!) byddwn yn anfon negeseuon testun. Felly, os na ydych wedi derbyn negeseuon gan 'ysgolpentre' hyd yma, a fuasech cystal a rhoi gwybod i ni beth yw eich rhif ffôn symudol cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda.

Dyddiadau i'r dyddiadur

- **10/09/13** - Gwersi nofio yn cychwyn (yna bob pnawn dydd Mawrth)
- **12/09/13** - Taith Blwyddyn 3 a 4 - Coed Y Brenin
- **12/09/13** - Taith Blwyddyn 5 a 6 - Senedd Owain Glyndwr, Machynlleth
- **24/09/13** - Deinydd Cymunedol yn archwilio dannedd plant ysgol gyfan
- **23/10/13** - Noson Rien
- **24/10/13** - Noson Rien
- **28/10/13** - **01/11/13** - gwyliau hanner tymor
- **02/12/13** - Pantomeim 'Cawr Cilfach Fargoed', Cricieth (Dos Derbyn - B16)
- **17/12/12** a **18/12/12** - Cyngerdd Nadolig (mwy o wybodaeth i ddilyn)

Cofiwch edrych am fwy o ddyddiadau pwysig mewn llythyrau ac ar ddyddiadur gwefan yr ysgol!

Siôp Ffrwythau

£1 yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun os gwelwch yn dda)



Arian mewn amlen

Gofynnwn yn garedig i chi roi unrhyw arian mewn amlenni ar wahân a nodi arno beth rydych yn ei dalu, enw eich plentyn a'i ddosbarth.

Os oes angen manylion ychwanegol arnoch, neu os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn/plant, rydym yn barod iawn i gael sgwrs â chwi.

Yn gywir,
Gethin Elis Thomas

"Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd"